

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Cafodd IMPACT Associates ei gomisiynu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Ebrill 2009 i ymgymryd â gwerthusiad ac adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl, cynlluniau gweithredu cysylltiedig, ac adroddiadau blynyddol 2008 pob un o'r 11 sefydliad addysg uwch (SAUau) yng Nghymru.

Nod y gwerthusiad oedd sicrhau CCAUC bod SAUau Cymru yn: cydymffurfio â'u Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl; symud tuag at gynhwysiant ar gyfer pobl anabl; ac yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfuno cydraddoldebau. Nod arall oedd darganfod arfer da ym maes datblygu cydraddoldeb i bobl anabl, a ffyrdd effeithiol o rannu'r arfer hwn gan gynnwys drwy ddulliau ar y cyd. Y bwriad oedd gwella profiad pobl anabl sy'n gweithio neu'n astudio yn y sector addysg uwch (AU) yng Nghymru neu sy'n gysylltiedig ag ef.

Cyd-destun

Cyflwynodd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 ddyletswyddau newydd ym maes cydraddoldeb i bobl anabl a oedd yn berthnasol i bob corff cyhoeddus. Roedd hyn yn wahanol i ddeddfwriaeth flaenorol gan ei fod yn gofyn i gyrrff cyhoeddus newid eu diwylliant drwy ymgorffori cydraddoldeb i bobl anabl yn gyfannol yn eu gweithgareddau strategol a gweithredol. Mae creu a gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn sylfaen i'r ymagwedd hon ac yn hybu cyflawni cydraddoldeb i bobl anabl. Cafodd y gwerthusiad hwn ei amseru i gynorthwyo SAUau Cymru wrth iddynt baratoi eu hail Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, sydd i gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

Mae'r adolygiad hwn yn ganlyniad uniongyrchol i weithred yng nghynllun gweithredu cynllun cydraddoldeb sengl CCAUC¹ i gomisiynu ymgynghorwyr i adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl y sefydliadau.

Methodoleg

Cafodd cyfres o adnoddau eu datblygu mewn ymgynghoriad â CCAUC a Grŵp Llywio'r prosiect, gan gynnwys templed safonedig, wedi'i wreiddio yng ngofynion y ddeddfwriaeth, i werthuso Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol y SAUau. Roedd defnyddio'r templed i werthuso yn sicrhau triniaeth gyfartal, yn ogystal â dadansoddiad systematig o'r Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol i ddarganfod i ba raddau yr oeddynt yn mynd i'r afael â dyletswyddau penodol a chyffredinol y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Arweiniodd yr adolygiad desg-seiliedig hwn at gynhyrchu adroddiad unigol cyfrinachol ar gyfer pob SAU a oedd yn ymdrin â lefelau o gydymffurfiaid ac yn tynnu sylw at arfer da.

¹ Cynllun gweithredu Cynllun Cydraddoldeb CCAUC 2008-2010 (gweithred 6.5) http://www.hefcw.ac.uk/FinanceAssurance_Docs/Equality_Action_Plan_07-09_FINAL.doc

Anfonwyd yr adroddiadau sefydliadol i'r SAUau cyn gwneud ymweliad wedi'i drefnu â'r sefydliadau unigol.

At bwrpas yr ymweliadau â'r sefydliadau, cafodd sgriptiau cyfweld wedi'u lled-strwythuro eu datblygu i lywio trafodaethau â'r staff sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r cynllun gweithredu ac â staff a myfyrwyr anabl ym mhob SAU. Gwahoddwyd staff uwch i gymryd rhan yn yr ymweliad, gan gynnwys aelodau o'r tîm rheoli uwch a rheolwyr adnoddau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gwasanaethau i bobl anabl. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i'r staff drafod casgliadau'r adroddiad ynghyd â strategaethau ar gyfer symud ymlaen; eu pryderon yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfuno cydraddoldebau; ac i nodi pa gydweithio, os o gwbl, yr hoffent ymgymryd ag ef yn y dyfodol. Yn ystod yr ymweliad ymgynghorwyd ar wahân â staff a myfyrwyr anabl ar weithrediad cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni cydraddoldeb i bobl anabl.

Er mwyn cael safbwynt allanol, cafodd cyfweiliadau ffôn lled-strwythuredig eu cynnal gyda staff o chwe chorff yn y sector² i gael eu barn ynghylch effeithiolrwydd y ffordd y mae SAUau Cymru yn mynd i'r afael â chydraddoldeb i bobl anabl, a'u hawgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Ymgynghorwyd â'r cyrff hyn hefyd ar gyflawni cydraddoldeb yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfuno cydraddoldebau ac ar gyfleoedd heddiw ac yn y dyfodol ar gyfer cydweithio.

Rhoddwyd ystod o ddulliau sicrhau ansawdd yn eu lle, gan gynnwys: sefydlu Grŵp Llywio'r prosiect; ymgymryd ag asesiad risg cychwynnol o'r prosiect; cynnal cyfarfod safoni i'r gwerthuswyr; defnyddio'r templed safonedig wedi'i seilio ar ofynion rheoleiddiol; clustnodi adolygwyr arweiniol ac eilaidd ar gyfer pob adroddiad ar SAUau; rhagbrofi'r templed adolygu a fformat yr adroddiad; a phenodi ymgynghorydd rheoli ansawdd.

Darganfyddion

Mae'r darganfyddion cryno yn ganlyniad i: adolygu cynlluniau'r SAUau, ymgynghori â staff yn y SAUau sy'n gysylltiedig â datblygu'r cynlluniau, ymgynghori â staff a myfyrwyr anabl yn yr 11 SAU ac ymgynghori â'r chwe chorff sector.²

Darganfuwyd cryn dipyn o arfer da mewn perthynas â chynhyrchu a gweithredu Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a oedd yn brawf o ymrwymiad staff y SAUau Cymreig i weithio tuag at gydraddoldeb. Sut bynnag, nid oedd yr holl gynlluniau'n ymdrin yn systematig â gofynion llawn y ddeddfwriaeth.

Dangosodd canlyniadau'r adolygiad desg fod yr 11 SAU yn cydymffurfio'n llawn o ran cyhoeddi eu cynlluniau ac o ran eu cynlluniau ar gyfer adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r cynllun gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau'n cydymffurfio â'r

² Anabledd Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), yr Uned Her Cydraddoldeb (ECU), yr Academi Addysg Uwch, Skill UK, a Sgil Cymru.

rheoliadau: o ran amlinellu'r wybodaeth i'w chasglu am bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer staff anabl; ac o ran cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd.

Roedd tua hanner y cynlluniau'n cydymffurfio o ran: nodi cynlluniau ar gyfer casglu gwybodaeth am fyfyrwyr anabl a gwasanaethau'r SAU; ymwneud; asesu effaith; a chynllunio gweithredu.

Nid oedd y SAUau at ei gilydd yn cydymffurfio mewn perthynas â thri rheoliad. Nid oedd cynlluniau'n nodi bob amser sut y câi cynlluniau dilynol eu paratoi. Ar y cyfan, nid oedd yr adroddiadau blynyddol yn crynhoi ac yn defnyddio gwybodaeth am bolisiâu, gweithdrefnau a phrofiadau pobl anabl.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r ymweliadau â'r sefydliadau oedd nad oedd arfer SAUau bob amser yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y cynllun, cynllun gweithredu ac adroddiad blynyddol. Mae rhai SAUau wedi gwneud mwy o gynnydd ym maes cydraddoldeb i bobl anabl, ond nid yw SAUau eraill wedi llwyddo i gyflawni'r hyn a fwriadwyd. Y tri maes pwysicaf sy'n gofyn am sylw i sicrhau bod y sector cyfan yn cydymffurfio yw: casglu, dadansoddi a defnyddio'r ystod lawn o wybodaeth sydd ei hangen wrth ddatblygu cynlluniau, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol; cynnwys pobl anabl yn fwy effeithiol ym mhob agwedd ar y cynllun a dangos effaith yr ymwneud hwnnw; a chynnal asesiadau effaith a chyhoeddi'r canlyniadau.

Credwn i'r 11 SAU gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl erbyn mis Rhagfyr 2006 yn unol â gofynion y gyfraith. Rhoddodd y mwyafrif o'r cynlluniau hyn wahoddiadau clir i ddarllenwyr i ofyn am gopiâu mewn fformatau gwahanol os oeddynt eu hangen. Roedd pedwar SAU wedi cynhyrchu neu'n bwriadu cynhyrchu crynodeb gweithredol neu fersiwn byr o'r cynllun i'w wneud yn fwy hygyrch, yn enwedig os oedd y cynllun yn un hir.

Mewn cynlluniau cynhwysfawr nodwyd yn glir grwpiau allweddol yr oedd y cynllun yn berthnasol iddynt. Ond nid oedd y mwyafrif o'r cynlluniau'n cynnwys cyfeiriadau penodol at bob rhanddeiliad anabl perthnasol o fewn ei gwmpas. Er enghraifft, nid oedd aelodau anabl o'r gymuned, ymwelwyr anabl â'r brifysgol, neu garfannau pwysig o boblogaeth y brifysgol, megis myfyrwyr anabl sy'n dysgu o bell, yn cael eu cynnwys bob amser.

Gosododd chwech o'r SAUau gyd-destun eu cynlluniau drwy amlinellu'r model anabledd a oedd yn sail i'w strategaeth. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio model cymdeithasol anabledd a phwyslais ar gynhwysiant. I ategu'r ymagwedd hon, roeddynt yn defnyddio iaith y model cymdeithasol ac yn cyfeirio at ganfod rhwystrau a datrysiadau.

Roedd cynlluniau a chynlluniau gweithredu a oedd yn hybu perchenogaeth ar draws y sefydliad wedi'u cysylltu fel rheol â nodau strategol y sefydliadau. I ategu hyn, roedd cyfrifoldeb dros weithredu gweithredoedd yn y cynlluniau wedi'i roi i staff allweddol ar draws y sefydliad. Roedd cefnogaeth yr Is-Ganghellor i'r cynllun a'i gynllun gweithredu hefyd yn hybu perchenogaeth. Fodd bynnag, mae casgliadau'r adolygiad yn dangos nad yw perchenogaeth o gynlluniau ar draws y brifysgol yn gyffredin. Er nad yw'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, mae gweithrediad effeithiol y

cynllun a'r cynllun gweithredu yn dibynnu ar ymagwedd sefydliad-cyfan sy'n cynnwys arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad clir i gydraddoldeb i bobl anabl.³

Mae ymwneud pobl anabl yn ganolog i'r ddyletswydd benodol; mae'n un o ofynion hanfodol y broses sy'n angenrheidiol i ddatblygu cynllun a'i gynllun gweithredu. Canfuwyd amrywiaeth o weithgareddau creadigol yn y cynlluniau i hybu ymwneud pobl anabl, megis rhoi dewis i fyfyrwyr roi eu manylion cysylltu ar yr arolwg o fodlonrwydd myfyrwyr, sy'n ddiennw fel rheol: yna ymyngorwyd â'r myfyrwyr hyn a threfnwyd cyfarfodydd ymgynghori'n seiliedig ar themâu.

Gellir dysgu gwersi o'r enghreifftiau a nodwyd o arfer arloesol gan fod ymwneud at ei gilydd yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach. Rhai dulliau y darganfuwyd eu bod yn debygol o gynyddu ymwneud llwyddiannus oedd: llunio strategaeth ymwneud gynhwysfawr a phrotocolau ymgynghori; trefnu ymgynghoriadau sy'n canolbwyntio ar themâu penodol; sicrhau adnoddau a chymhellion digonol; darparu dulliau ymwneud hygyrch; a'r lefelau uchel o fodlonrwydd ar y ddarpariaeth a gynigir gan wasanaethau ar gyfer pobl anabl fel dylanwad cadarnhaol ar y tebygolrwydd y bydd pobl anabl yn cytuno i gymryd rhan.

Mae gofyn i SAUau ddadansoddi a defnyddio gwybodaeth a gasglant wrth ddatblygu'r cynllun fel sylfaen ar gyfer penderfynu ar y camau a gymerant yn y cynllun gweithredu. Roedd cynlluniau casglu gwybodaeth wedi'u datblygu'n dda ar gyfer staff a myfyrwyr. Ar y cyfan roedd gweithgaredd casglu gwybodaeth wedi'i ddatblygu fwy ar gyfer myfyrwyr nag ar gyfer staff. Gwelwyd nifer o dulliau defnyddiol ac arloesol o gefnogi casglu a dadansoddi gwybodaeth. Er enghraifft, roedd cael system gynhwysfawr a chadarn ar gyfer ymdrin â chwynion ac ar gyfer monitro'r rhain yn ffynhonnell bwysig bosibl o wybodaeth ansoddol. Hefyd roedd Undeb Myfyrwyr un SAU yn bwriadu casglu data ar gyfranogiad myfyrwyr anabl mewn clybiau, cymdeithasau a gweithgareddau eraill Undeb y Myfyrwyr.

Roedd annog datgelu gwybodaeth am anabledd yn cael ei ystyried yn allweddol er mwyn cael gwybodaeth fwy ystyrion a chynhwysfawr am staff a myfyrwyr anabl. Ond mewn nifer o SAUau roedd systemau rheoli, casglu ac adrodd data, a phrotocolau mynediad, yn cyfyngu ar y wybodaeth a oedd ar gael ac ar ddefnydd effeithiol ohoni. At ei gilydd, ychydig o systemau a oedd yn cael eu defnyddio i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am welliannau mewn gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig mewn perthynas ag ymwelwyr anabl a phartneriaid allanol.

Un o agweddau hanfodol y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yw'r ddyletswydd i asesu effeithiau polisiâu, gweithdrefnau ac arferion i helpu i sicrhau nad yw awdurdodau cyhoeddus yn rhoi pobl anabl dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Mae asesiadau effaith hefyd yn sicrhau bod pob agwedd ar y ddyletswydd gyffredinol, megis dileu gwahaniaethu a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl, yn cael eu hymgorffori mewn polisiâu a gweithdrefnau o'r cychwyn

³ Y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Cod Ymarfer, adrannau 2.59 (Arweinyddiaeth) a 3.26 (Cyflwyniad i'r Cynllun). Y Comisiwn Hawliau Pobl Anabl (2005)

cyntaf. I gwrdd â'r ddyletswydd hon, mae 10 allan o'r 11 SAU Cymreig yn defnyddio prosesau asesiadau effaith pob-cydraddoldeb ar hyn o bryd. Mae hyn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad).

Roedd yr holl gynlluniau'n cynnwys cyfeiriadau at weithdrefnau asesu effaith. Roedd arfer da i'w weld mewn sawl SAU mewn perthynas â hyfforddi staff i ymgymryd ag asesiadau effaith ac ymestyn cyfrifoldeb i ysgolion ac adrannau. Sut bynnag, nid oedd y cynlluniau bob amser: yn dangos bod dealltwriaeth o'r broses asesu effaith yng nghyd-destun y sefydliad; yn amlinellu meysydd blaenoriaethol ar gyfer asesiadau effaith; neu'n cynnwys datganiad ar y dulliau i'w defnyddio ar gyfer gwneud asesiadau effaith. Ystyrid bod swydd y rheolwr cydraddoldeb yn allweddol i weithrediad y broses asesu effaith, ond roedd sefydliadau'n dibynnu'n ormodol ar y swydd hon i gyflawni'r gwaith. Roedd prinder adnoddau ar gyfer blaenoriaethu gweithredu a chynnal asesiadau effaith wedi arwain at gynnydd annigonol ar y cyfan. Prin oedd y SAUau a oedd wedi cyhoeddi canlyniadau asesiadau effaith.

Y cynllun gweithredu yw conglaen y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Dylai cynlluniau gweithredu nodi'r camau allweddol y bydd awdurdod cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r chwe dyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb i bobl anabl ar draws y sefydliad cyfan, ac i gymryd i ystyriaeth anghenion staff, myfyrwyr a grwpiau perthnasol eraill. Hefyd dylai'r cynllun gweithredu adlewyrchu blaenoriaethau'r bobl anabl eu hunain yn ogystal â blaenoriaethau'r corff cyhoeddus. Yn ogystal, dylai'r cynllun nodi'r canlyniadau penodol y mae'r SAU yn dymuno eu cyflawni, ynghyd â gwybodaeth am atebolrwydd, amserlenni ar gyfer gweithredu, a dangosyddion mesuradwy o gynnydd tuag at y canlyniadau hyn.

At ei gilydd roedd cynlluniau gweithredu SAUau Cymru yn fanwl ac roedd ynddynt lawer o enghreifftiau o arfer da, gan gynnwys: creu themâu er mwyn gallu grwpio gweithredoedd cyffelyb gyda'i gilydd; system cod lliwiau i fapio nodau strategol y brifysgol yn erbyn gweithredoedd ynghyd â phwy yn y tîm rheoli uwch sy'n gyfrifol am gyflawni'r nodau hyn; cysylltu'r gweithredoedd yn y cynllun yn glir â strategaeth a phrosiectau ehangu mynediad y brifysgol, ac â gweithgaredd rhyngwladol. Roedd chwe cynllun gweithredu yn ymdrin â chwe agwedd y ddyletswydd gyffredinol; nid oedd y gweddill yn cwrdd â'r gofyniad hwn yn llawn. Dwy agwedd ar y ddyletswydd gyffredinol a gafodd y sylw lleiaf oedd yr angen i 'gymryd camau i gymryd anabledau pobl anabl i ystyriaeth, hyd yn oed os yw hyn yn golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill' a'r ddyletswydd i 'annog cyfranogiad pobl anabl mewn bywyd cyhoeddus'.

Lle'r oedd cynlluniau gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a lle'r oedd mesurau'n cael eu cynnwys i helpu i nodi ac adrodd ar gynnydd, roedd yn glir bod hyn o gymorth i gyflawni nodau. Roedd gwneud aelod o'r tîm rheoli uwch yn gyfrifol am gyflawni'r nodau hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y câi'r gweithredoedd eu rhoi ar waith ar lefel sefydliadol. Prin oedd y cynlluniau gweithredu a oedd yn blaenoriaethu gweithredoedd neu'n egluro sut y byddid yn darparu adnoddau ar gyfer eu cyflawni.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer SAUau megis amlinellu'r trefniadau i adolygu ac adrodd ar gynnydd bob blwyddyn, a datganiad ar sut y caiff cynlluniau dilynol eu cynhyrchu. Darganfuwyd arfer da yn y SAUau Cymreig yn y cyswllt hwn. Roedd rhai cynlluniau'n amlinellu sut y byddai paratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r gweithredoedd arfaethedig yn cael ei wneud, gan gynnwys: enwi aelod uwch o'r staff a fyddai'n gyfrifol am adrodd ar gynnydd; disgrifiadau o sut a ble y câi'r adroddiad ei gyhoeddi; a pha bwyllgorau a fyddai'n derbyn adroddiadau ar gynnydd.

Dim ond ychydig o'r SAUau a aeth i'r afael â'r mater o ddatblygu cynlluniau at y dyfodol. Yn yr achosion hyn, darparwyd manylion byr yn unig. Dim ond un cynllun a oedd yn cynnwys datganiad clir ar y trefniadau ar gyfer defnyddio gwybodaeth a gesglid yn ystod oes y cynllun i baratoi cynlluniau pellach.

Mae'r dyletswyddau penodol yn gofyn i SAUau gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynnydd sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd â chanlyniadau casglu gwybodaeth a'r defnydd a wnaed o'r wybodaeth honno. Gwelwyd arfer da yn yr adroddiadau blynyddol: roeddynt yn defnyddio ffontiau o faint ac arddull addas a oedd yn hawdd eu darllen ac yn hygyrch; yn hawdd dod o hyd iddynt ar wefan y SAU; yn dangos bod y sefydliad yn parhau i ymgysylltu â phobl anabl; ac yn cyflwyno adroddiadau tryloyw ar gynnydd drwy ddarparu diweddariad ar bob gweithred yn y cynllun gweithredu gwreiddiol.

Mae rhai o arferion SAUau wrth gynhyrchu adroddiadau blynyddol yn gosod esiampl, er enghraifft, darparu data cynhwysfawr ar bob llinyn cydraddoldeb ac ar nifer o faterion anabledd gan gynnwys: y nifer o fyfyrwyr sy'n cael y LMA (DSA); data penodol ar namau; proffil anabledd y myfyrwyr wedi'i lunio gan yr ysgol academaidd; cyfraddau tynnu'n ôl a chyrchfannau myfyrwyr; a phroffil anabledd y staff. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau'n adrodd yn gyson ar arfer da na'u cyflawniadau.

Nododd myfyrwyr anabl ym mhob SAU eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan staff anabledd arbenigol. Roedd profiadau staff anabl yn fwy amrywiol. Nododd staff anabl mewn rhai SAUau fod cryn dipyn o waith i'w wneud eto i sicrhau bod addasiadau rhesymol effeithiol yn cael eu gweithredu yn y gweithle. Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith nad oedd myfyrwyr a staff anabl yn mwynhau profiadau a gwasanaethau o'r un safon â myfyrwyr a staff eraill.

Mae cynlluniau cydraddoldeb sengl neu gyfunol eisoes wedi cael eu cyhoeddi gan ddau SAU ac mae wyth SAU yn bwriadu cynhyrchu cynllun o'r fath yn hytrach na Chynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ym mis Rhagfyr 2009. At ei gilydd roedd gan SAUau, staff a myfyrwyr anabl, a chyrrff yn y sector agwedd gadarnhaol tuag at y ddeddfwriaeth ar gyfuno cydraddoldebau ac at fanteision cynllun cydraddoldeb sengl. Roedd peth pryder y gallai SAUau golli golwg ar faterion cydraddoldeb i bobl anabl wrth symud tuag at gynlluniau cydraddoldeb sengl. Yn ogystal, mae'r logisteg sydd ynghlwm wrth greu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl wedi peri peth pryder oherwydd y gallai manylion hanfodol gael eu colli wrth gyfuno llinynnau cydraddoldeb mewn un cynllun a chynllun gweithredu.

Argymhellion cryno

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad wedi'u rhannu'n ddwy adran, rhai ar gyfer SAUau a rhai ar gyfer CCAUC. Mae 36 o argymhellion ar gyfer SAUau wedi'u strwythuro o gwmpas deg [gweler p51ff] o brif welliannau sy'n seiliedig ar themâu.

- Sicrhau bod cynlluniau'n mynd i'r afael yn llawn â'r dyletswyddau i'r holl randdeiliaid a sicrhau cefnogaeth ar lefel uwch ar gyfer cynlluniau.
- Sicrhau mwy o ymwneud ac ymwneud ehangach, yn arbennig mewn perthynas ag ymwneud staff anabl, pobl anabl o'r gymuned a chyrff sy'n cynrychioli pobl anabl. Mae angen gwneud mwy o ddefnydd tryloyw o ganlyniadau'r ymwneud hwn, gan gynnwys sut y mae wedi dylanwadu ar lunio gweithredoedd yn y cynlluniau. Hefyd dylid creu strategaethau ymwneud a phrotocolau ymgynghori cyn datblygu cynlluniau pellach.
- Mae angen casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol yn fwy effeithiol er mwyn hwyluso cynllunio, cyflawni ac adolygu cynlluniau. Mae angen lefelau gwell o wybodaeth am staff anabl ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau.
- Dylid rhoi sylw penodol i sut y mae cynlluniau gweithredu yn mynd i'r afael â chwe elfen y dyletswyddau cyffredinol a sut y mae canlyniadau gweithgareddau ymwneud a'r wybodaeth sydd wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi wedi dylanwadu ar gynnwys y cynllun gweithredu a'i flaenoriaethau.
- Dylai cynlluniau ac adroddiadau gael eu cyfathrebu'n effeithiol i gymuned gyfan y brifysgol ac mae angen i'r sector cyfan ystyried a chyhoeddi sut y bydd cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu paratoi.
- Esbonio'n glir mewn cynlluniau y dulliau asesu effaith a ddefnyddir, o flaenoriaethu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer asesu i gyhoeddi canlyniadau. Ynghyd ag angen i gynnwys mwy o bobl o'r SAU, gan gynnwys pobl anabl, mewn polisiâu a gweithdrefnau asesu effaith.
- Mae angen tystiolaeth o gynnydd, a geir drwy gasglu gwybodaeth, mewn adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd gwell o ganlyniadau: casglu data a gwybodaeth; ymwneud; arolygon bodlonrwydd; ac asesiadau effaith. Gallai sefydliadau wneud mwy o ddefnydd o'r adroddiad blynyddol i ddathlu'r cynnydd y maent hwy'n ei wneud tuag at gyflawni cydraddoldeb i bobl anabl.
- Sicrhau triniaeth gyfartal wrth fynd i'r afael â chydraddoldeb i staff a myfyrwyr anabl.
- Sicrhau nad yw'r manylion penodol ar faterion cydraddoldeb i bobl anabl yn cael eu gwanhau neu eu colli wrth newid drosodd i gynlluniau cydraddoldeb sengl.

- Mae angen ystyried manteision gweithio ar y cyd i gynyddu gwybodaeth ac arbenigedd, i rannu arfer, ac i ymgymryd ag ymwneud allanol effeithiol.

Mae materion trawsbynciol wedi codi o'r deg thema hyn:

- Annog perchenogaeth ehangach ac ymwneud uwch reolwyr.
- Gwreiddio cyflawni a phrif-ffrydio gweithgareddau.
- Sicrhau bod y gweithgareddau'n cwmpasu'r ystod lawn o randdeiliaid allweddol.
- Defnyddio arbenigedd y sefydliadau i gynyddu llwyddiant i'r eithaf, er enghraifft, ym meysydd marchnata a dadansoddi data.
- Sicrhau y defnyddir dulliau hygyrch ac y cynhyrchir cyhoeddiadau hygyrch.
- Monitro a gwerthuso cynnydd a chyflawniadau'n barhaus.
- Darparu cysylltiadau clir rhwng y gwahanol gweithredoedd i'w cyflawni o fewn y cynllun.
- Ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.
- Cydnabod, hyrwyddo a dathlu cyflawniadau.

Mae'r naw argymhelliad [gweler p55ff] yn yr adroddiad ar gyfer CCAUC yn ymwneud yn bennaf â:

- Helpu SAUau i flaenoriaethu a gweithredu argymhellion yr adroddiad, yn enwedig y rheiny ar gyfer SAUau lle y mae lefelau o gydymffurfiaid yn isel; ac ystyried pa agweddau ar gydraddoldeb i bobl anabl y gellir ymdrin â hwy orau drwy ymagwedd benodol at anabledd a pha rai drwy ymagwedd gyfunol gyffredinol at gydraddoldebau.
- Gweithio gydag uwch reolwyr a chyrrff llywodraethu i helpu SAUau i godi proffil cydraddoldeb i bobl anabl.
- Gweithio gyda SAUau i sicrhau gweithgaredd cydweithiol effeithiol a phriodol.
- Rhoi cymorth i SAUau i ystyried sut y gallant ddarparu adnoddau ar gyfer cyflawni cydraddoldeb i bobl anabl.
- Ystyried dulliau o helpu'r SAUau hynny sy'n dymuno symud y tu hwnt i gydymffurfiaid yn unig drwy gefnogi datblygu prosiectau ymchwil gweithredol i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl ymhellach.

Casgliad

Dylai CCAUC fod yn hyderus bod y sefydliadau wedi dysgu oddi wrth eu profiad o gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ac oddi wrth yr adborth a gynhyrchwyd gan yr adroddiad hwn, er nad oedd y Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl a gynhyrchwyd gan SAUau Cymru yn 2006 yn cydymffurfio'n llawn â'r

Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Felly, bydd SAUau sy'n paratoi cynlluniau a gaiff eu cyhoeddi fel rhan o gylch adolygu tair blynedd y ddyletswydd benodol ym mis Rhagfyr 2009 bellach mewn sefyllfa gryfach i fynd i'r afael â'r meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â hwy. Roedd yn amlwg o'r ymweliadau â'r sefydliadau fod yr holl SAUau yn gweithio tuag ag gydraddoldeb i bobl anabl a'u bod wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'u Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl gwreiddiol. Serch hynny, nid oedd tystiolaeth o hyn yn adroddiadau blynyddol pob un o'r SAUau.

Y tri maes sy'n gofyn am y cymorth mwyaf i'w datblygu yw casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth; ymwneud pobl anabl; a gweithdrefnau asesu effaith.

Darganfuwyd bod SAUau Cymru yn symud gan bwyll tuag at gynhwysiant i bobl anabl, a nodwyd llawer o enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â datblygu cydraddoldeb i bobl anabl ac ymagweddau cynhwysol.

Mynegwyd rhai pryderon gan staff SAUau a chyrrff yn y sector am y ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfuno cydraddoldebau, yn bennaf oherwydd y perygl y byddai ymagwedd gyfunol at gydraddoldebau yn arwain at wanhau materion anabledd ac oherwydd yr arbenigedd ac adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

Rydym yn ffyddiog y bydd yr adolygiad amserol hwn a'r camau a gymerir o ganlyniad iddo gan y SAUau a CCAUC yn cyfrannu at wella profiad pobl anabl sy'n gweithio neu'n astudio yn y sector AU yng Nghymru neu sy'n gysylltiedig ag ef.